O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 1680 (Cy. 217) (C. 97)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 1) 2015

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Dyma'r gorchymyn cychwyn cyntaf a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn yn darparu mai 5 Hydref 2015 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym ddarpariaethau'r Ddeddf a nodir yn yr erthygl honno ac y cyfeirir atynt isod:

adran 2 (trais yn erbyn menywod a merched)

adran 3 (dyletswydd i baratoi, cyhoeddi ac adolygu strategaeth genedlaethol)

adran 4 (dyletswydd i weithredu'r strategaeth genedlaethol)

adran 9 (gwybodaeth am ddarpariaeth addysgol i hybu diben y Ddeddf hon)

adran 11 (dangosyddion cenedlaethol)

adran 12 (adroddiadau cynnydd blynyddol gan Weinidogion Cymru)

adran 22 (cynllun blynyddol ac adroddiadau blynyddol)

adran 23 (cyhoeddi adroddiadau)

Daeth adrannau 1 (diben y Ddeddf hon), 24 (dehongli), 25 (cychwyn) a 26 (enw byr) i rym pan roddwyd y Cydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2015 yn rhinwedd adran 25(1) o'r Ddeddf.

Daeth adrannau 10 (canllawiau i sefydliadau addysg bellach ac uwch), 14 (ystyr "awdurdod perthnasol"), 15 (pŵer i ddyroddi canllawiau statudol), 16

(ymgynghori a gweithdrefnau Cynulliad Cenedlaethol Cymru), 17 (dyletswydd i ddilyn canllawiau statudol), 18 (datganiadau polisi: gofynion a phwerau ategol), 19 (cyfarwyddydau), 20 (Cynghorydd Cenedlaethol) ac 21 (swyddogaethau'r Cynghorydd) i rym ar 29 Mehefin 2015 yn rhinwedd adran 25(2) o'r Ddeddf.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 1680 (Cy. 217) (C. 97)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 1) 2015

*Gwnaed* *8 Medi 2015*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddwyd iddynt gan adran 25(3) o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015(**1**).

**Enwi**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 1) 2015.

**Diwrnod penodedig**

**2.** 5 Hydref 2015 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015—

(a) adran 2 (trais yn erbyn menywod a merched);

(b) adran 3 (dyletswydd i baratoi, cyhoeddi ac adolygu strategaeth genedlaethol);

(c) adran 4 (dyletswydd i weithredu'r strategaeth genedlaethol);

(d) adran 9 (gwybodaeth am ddarpariaeth addysgol i hybu diben y Ddeddf hon);

(e) adran 11 (dangosyddion cenedlaethol);

(f) adran 12 (adroddiadau cynnydd blynyddol gan Weinidogion Cymru);

(g) adran 22 (cynllun blynyddol ac adroddiadau blynyddol); ac

(**1**) 2015 dccc 3.

(h) adran 23 (cyhoeddi adroddiadau).

*Leighton Andrews*
Teitl y Gweinidog, un o Weinidogion Cymru
8 Medi 2015